


CBLI – Crynodeb o Berfformiad PPC Ch1 2026

Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Syrthiodd Mynegai Net y Byd MSCI 3.6% (USD) mewn chwarter cyfnewidiol ar gyfer ecwiti. Fe wnaeth momentwm positif ym mis Ionawr a Chwefror droi'n negyddol yn sydyn ym mis Mawrth yn dilyn ymosodiadau milwrol yr Unol Daleithiau ar Iran, a berodd i ddatblygiadau geo-wleidyddol ddylanwadu ar deimlad y farchnad. Y DU oedd y farchnad a berfformiodd orau ac yna Japan a Canada. Roedd Asia a marchnadoedd sy'n datblygu hefyd yn well na'r mynegai byd-eang. Yr Unol Daleithiau a berfformiodd waethaf oherwydd pryderon am wariant cyfalaf ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artifisial (AI) a'u dylanwad aflonyddgar posibl. Fe wnaeth tensiynau geo-wleidyddol cynyddol ynghyd â mwy o ansicrwydd dros bolisi masnach yr Unol Daleithiau ychwanegu at nerfusrwydd y farchnad a chryfhau'r teimlad "gwerthu'r Unol Daleithiau". Cynyddodd prisiau olew yn raddol, gan wedyn godi'n aruthrol ar ôl streiciau'r Unol Daleithiau ar Iran. Wedi hynny cafwyd penawdau yn gwrthddweud ei gilydd, a berodd i'r prisiau crai fynd yn anwadal ac arwain at bryderon eang am yr effaith economaidd. Cyrhaeddodd aur uchafbwynt ym mis Ionawr, gan dorri'r drwy'r terfyn \$ 5,000 fesul owns troy, ond gostyngodd yn sydyn tuag at ddiwedd y chwarter wrth i ddisgwyliadau am doriadau cyfradd pellach leihau. Fe wnaeth y Gronfa Ffederal, Banc Canolog Ewrop, Banc Lloegr, Banc Canada a Banc Japan adael y cyfraddau llog heb newid. Fe wnaeth Reserve Bank Awstralia godi cyfraddau am y tro cyntaf mewn dwy flynedd.

Yn y DU, golygai ansicrwydd gwleidyddol fod enillion gilt yn anwadal yn sgil y sibrydion am her arweinyddiaeth bosibl i'r Prif Weinidog Keir Starmer. Yn ddiweddarach, dringodd enillion gilt oherwydd bod disgwyl i gyfraddau llog godi wrth i brisiau ynni godi'n aruthrol ar ôl cau Culfor Hormuz. Roedd yr effaith yn fwy na marchnadoedd datblygedig eraill oherwydd y bu disgwyl i'r BoE ostwng cyfraddau ymhellach na banciau canolog eraill. Torrodd enillion gilt 10-mllynedd y DU y marc 5.0% yn ddiweddarach ym mis Mawrth, gan gyrraedd yr uchaf ers mis Gorffennaf 2008 wrth i fasnachwyr dybio y byddai cyfres o godiadau cyfradd, hyd at bedwar, eleni. Yn y cyfamser, dangosodd data ffres fod twf economaidd yn fflat ym mis Ionawr o gymharu â rhagolwg y farchnad o dwf o 0.2% a chynnydd o 0.1% ym mis Rhagfyr. Roedd y canlyniad hwn yn bennaf oherwydd gweithgarwch is y sector gwasanaeth. Gostyngodd chwyddiant pennawd i 3.0% FlarFI ym mis Ionawr (o 3.4%) ac ni wnaeth newid ym mis Chwefror. Mewn manau eraill, er bod PMIs Ionawr a Chwefror wedi cryfhau gan ddangos y gallai eglurder yn dilyn y Gyllideb ym mis Tachwedd fod wedi rhoi hwb i weithgarwch busnes, dangosodd data rhagarweiniol ar gyfer mis Mawrth fod twf yn arafu mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Dros y chwarter dringodd yr enillion ar giltiau 10-mllynedd 44 bps i 4.92%.

Perfformiad dosbarth asedau – y Chwarter hyd yma (Mawrth 2026)



Meincnodau: Global equity hedged (MSCI World ACWI), Ecwiti y DU (FTSE All Share), Ecwiti y DU hedged (Russell 1000 Net GBPH), Ewrop ex ecwiti y DU (MSCI Ewrop ex Ecwiti y DU Net GBPH), ecwiti Japan (TOPIX Net GBPH), Ecwiti marchnadoedd datblygol (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer swyddogion PPC yn seiliedig ar berfformiad gan Northern Trust. Mae dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall dyddiadau cychwyn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Crynodeb o Is-gronfa PPC (Gros):

Perfformiad Gros PPC	Ch1 2026			1 Flwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	
Cronfa Twf Byd-eang	-2.7	-1.3	-1.4	14.2	17.5	-3.3	10.4	13.5	-3.1	10.1	11.6	-1.5	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	-1.1	-1.3	0.2	17.3	17.5	-0.2	14.5	14.1	0.4	12.8	11.9	0.9	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	-1.6	-1.3	-0.3	13.7	17.5	-3.8	-	-	-	10.5	14.8	-4.3	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	2.3	1.8	0.5	32.0	27.2	4.8	13.3	12.6	0.7	6.1	5.3	0.8	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	-0.3	2.4	-2.7	17.9	21.5	-3.6	11.7	13.3	-1.6	7.3	8.4	-1.1	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	-0.8	-0.2	-0.6	2.8	2.6	0.2	2.6	2.7	-0.1	-0.4	-1.1	0.7	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-Eang	-0.5	-0.5	0.0	4.5	4.5	0.0	4.7	4.7	0.0	0.1	0.1	0.0	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	-0.5	1.9	-2.4	7.6	8.3	-0.7	8.6	9.0	-0.4	4.2	7.1	-2.9	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	0.9	1.4	-0.5	4.5	6.2	-1.7	6.4	6.9	-0.5	4.4	5.1	-0.7	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	-1.6	-1.6	0.0	4.3	4.3	0.0	4.9	4.3	0.6	0.0	-0.8	0.8	27/07/2020

Crynodeb o Is-gronfa PPC (Net):

Perfformiad Net PPC	Ch1 2026			1 Flwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	Is-gronf a	Meinc nod	Dros ben	
Cronfa Twf Byd-eang	-2.8	-1.3	-1.5	13.9	17.5	-3.6	10.0	13.5	-3.5	9.7	11.6	-1.9	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	-1.1	-1.3	0.2	17.0	17.5	-0.5	14.2	14.1	0.1	12.5	11.9	0.6	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	-1.7	-1.3	-0.4	13.3	17.5	-4.2	-	-	-	10.1	14.8	-4.7	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	2.1	1.8	0.3	31.5	27.2	4.3	12.9	12.6	0.3	5.6	5.3	0.3	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	-0.4	2.4	-2.8	17.6	21.5	-3.9	11.4	13.3	-1.9	6.9	8.4	-1.5	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	-0.8	-0.2	-0.6	2.5	2.6	-0.1	2.4	2.7	-0.3	-0.7	-1.1	0.4	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-Eang	-0.5	-0.5	0.0	4.3	4.5	-0.2	4.6	4.7	-0.1	-0.1	0.1	-0.2	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	-0.6	1.9	-2.5	7.3	8.3	-1.0	8.2	9.0	-0.8	3.9	7.1	-3.2	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	0.8	1.4	-0.6	4.2	6.2	-2.0	6.2	6.9	-0.7	4.2	5.1	-0.9	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	-1.7	-1.6	-0.1	4.2	4.3	-0.1	4.8	4.3	0.5	-0.1	-0.8	0.7	27/07/2020

Noder: Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad gwirioneddol) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-2.7	14.2	10.4	6.6	10.1
Net	-2.8	13.9	10.0	6.2	9.7
Mynegai MSCI AC World Net*	-1.3	17.5	13.5	10.1	11.6
Enillion dros ben (gros)	-1.4	-3.3	-3.1	-3.5	-1.5
Enillion dros ben (Net)	-1.5	-3.6	-3.5	-3.9	-1.9

Dyddiad Cychwyn: 18 Tachwedd 2024

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP

*Mae'r ffigyrau'n cynnwys saib yn y perfformiad ym mis Tachwedd 2024 wrth bontio'r Gronfa.

Noder bod Russell Investments wedi cymryd drosodd mandad y Gronfa Ecwiti Twf Byd-eang ar 18 Tachwedd 2024.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt negyddol dros y chwarter cyntaf a gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol.

Yn yr amgylchedd marchnad hwn roedd amlygiad gwerth y Gronfa yn ddefnyddiol. Ar lefel sector, yr amlygiad tanbwysau i, a'r dewis stoc yn y sector ynni a effeithiodd fwyaf ar y gronfa, gan mai hwn oedd y sector a berfformiodd orau yn y cyfnod. Roedd hyn yn cynnwys tanbwysau i Exxon Mobil a Chevron. Roedd y dewis stoc yn y sector diwydiannol hefyd yn aneffeithiol (dros bwysau SS&C Technologies Holdings). Yn y sector ariannol fe wnaeth amlygiad dros bwysau i Moody's Corporation a Mastercard dynnu oddi ar y perfformiad. Nid oedd dyraniadau i, a'r dewis stoc o fewn cyfleustodau yn ddefnyddiol chwaith. Ar yr ochr bositif, gwobrwywyd y dewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth (dros bwysau TSMC, Samsung Electronics). Roedd amlygiad dros bwysau i, a'r dewis stoc o fewn deunyddiau hefyd yn effeithiol (dros bwysau Dow, BASF). Mewn mannau eraill, yn y sector nwyddau dewisol defnyddwyr roedd tanbwysau i Tesla yn fuddiol tra bod gorbwysau i enwau nwyddau moethus LVMH a Richemont wedi tynnu oddi ar y perfformiad.

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-1.1	17.3	14.5	10.9	12.8
Net	-1.1	17.0	14.2	10.6	12.5
Mynegai MSCI AC World Net	-1.3	17.5	14.1	10.5	11.9
Enillion dros ben (gros)	-0.2	-0.2	0.4	0.4	0.9
Enillion dros ben (Net)	-0.2	-0.5	0.1	0.1	0.6

Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt negyddol dros y chwarter cyntaf ond gorffennodd yn uwch na'r meincnod ar sail gymharol.

Yn ystod y chwarter, roedd gogwydd y Gronfa at werth a chapiau bach yn fuddiol. Mewn sectorau, roedd amlygiad tanbwysau i, a'r dewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth yn gyfrannwr allweddol at enillion dros ben. Roedd hyn yn cynnwys amlygiad dros bwysau i Seagate Technology Holdings, Samsung Electronics a TSMC. Roedd amlygiad dros bwysau i, a'r dewis stoc o fewn diwydiannau hefyd yn effeithiol (sefyllfa oddi-ar-y-meincnod yn Toto; Comfort Systems, Hyundai Engineering & Construction). Mewn mannau eraill, roedd gorbwysau i ddeunyddiau, un o'r sectorau a berfformiodd orau yn y cyfnod, yn fuddiol. Mewn ynni, roedd tanbwysau i'r sector yn tynnu oddi ar y perfformiad tra bod dewis stoc yn ddefnyddiol, gan gynnwys sefyllfa oddi-ar-y-meincnod yn Noble Corporation a gorbwysau i BP. Ar yr ochr negyddol, roedd y dewis stoc yn y sector ariannol wedi effeithio ar berfformiad (dros bwysau Deutsche Bank, Commerzbank). Roedd amlygiad tanbwysau i'r sector cyfleustodau hefyd yn niweidiol.

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	-1.6	13.7	10.5
Net	-1.7	13.3	10.1
Mynegai MSCI AC World Net	-1.3	17.5	14.8
Enillion dros ben (gros)	-0.3	-3.8	-4.3
Enillion dros ben (Net)	-0.4	-4.2	-4.7

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Mehefin 2023

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth y Gronfa danberfformio yn y chwarter cyntaf.

Ni chafodd detholiadau ffactor y Gronfa eu gwobrwyo fawr ddim yn yr amgylchedd hwn. Ar sail ranbarthol, roedd dewis stoc yn negyddol yn Japan a'r DU ac roedd yn cynnwys amlygiad i Recruit Holdings o Japan (dros bwysau) a Shell yn y DU (tanbwysau). Ar lefel sector, roedd tanbwysau i ynni a'r dewis stoc o fewn diwydiannau ac o fewn prif gynnyrch defnyddwyr yn tynnu fwyfwy oddi ar y perfformiad cymharol. Ni chafodd dewsiadau aneffeithiol yn y sectorau gofal iechyd (dros bwysau i Danaher) eu gwobrwyo chwaith. Fodd bynnag, mae'r dewis o fewn technoleg gwybodaeth a nwyddau dewisol defnyddwyr yn gwrthbwysu'r perfformiad negyddol i ryw raddau.

Sylwadau ar Farchnadoedd Datblygol

Roedd marchnadoedd datblygol (EM) wedi perfformio'n well na'r mynegai byd-eang gyda gwahaniaeth enfawr ymhlith marchnadoedd. Colombia a Periw oedd y marchnadoedd a berfformiodd orau ac yna Brasil a De Korea. Mae Colombia a Periw wedi elwa o gynnydd mewn prisiau nwyddau (olew, copr) sy'n trosi i gyfranddaliadau mwngloddio uwch. Perfformiodd marchnad De Korea yn gryf ym mis Ionawr a Chwefror, yn bennaf oherwydd enwau yn y meysydd 'chipmakers' a pheirianeg, ond profodd ostyngiadau mawr ym mis Mawrth. Mae marchnad ecwiti Brasil wedi taro uchafbwyntiau newydd, gyda chymorth gan ddata chwyddiant calonogol ac amlygiad i nwyddau. Yn nodedig, cododd cyfranddaliadau Petrobras yn aruthrol yn sgil prisiau olew cynyddol. Fe wnaeth Indonesia, India a China danberfformio. Syrthiodd cyfranddaliadau Indonesia yn dilyn rhybudd gan y darparwr mynegai MSCI y byddai'n eu hisraddio o bosib oherwydd materion buddsoddi. Yn ogystal, torrodd Moody's ei ragolygon sgôr credyd i "negyddol" o "sefydlog" gan nodi, ymhlith pethau eraill, ansicrwydd polisi a llywodraethu gwan. Roedd marchnad Tsieina yn dioddef o wendid parhaus yn y farchnad eiddo, hyder bregus ymhlith buddsoddwyr domestig a thramor a phryderon geo-wleidyddol.

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.3	32.0	13.3	6.1
Net	2.1	31.5	12.9	5.6
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI	1.8	27.2	12.6	5.3
Enillion dros ben (gros)	0.5	4.8	0.7	0.8
Enillion dros ben (Net)	0.3	4.3	0.3	0.3

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI Net

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Mae'r Gronfa wedi perfformio'n well na'r meincnod enillion. O safbwynt arddull, perfformiodd gwerth yn well yn ystod y cyfnod hwn.

Bu enillion absoliwt positif i'w gweld hefyd. Fe wnaeth capiau canolig berfformio'n well na chapiau mawr a bach. Roedd momentwm yn llusgo fymryn tu ôl i'r meincnod enillion. Roedd stociau twf cap mawr wedi colli eu poblogrwydd. Ar lefel sector, technoleg gwybodaeth oedd y prif berfformiwr, o flaen ynni. Roedd cyfleustodau, deunyddiau a diwydiannau hefyd wedi perfformio'n well gydag enillion llai. I'r gwrthwyneb, y sectorau gwasanaethau cyfathrebu a nwyddau dewisol defnyddwyr a berfformiodd salaf, yn bennaf oherwydd cwmnïau o Tsieina. Cafodd eiddo tiriog ei effeithio'n negyddol gan ddatblygwyr eiddo yn yr UAE. Roedd amlygiad y Gronfa i fomentwm a gwerth yn ffafriol yn ystod y cyfnod, er na fu unrhyw fantais i'r gogwydd tuag at stociau cap bach wrth i enwau gwerth cap mawr arwain y farchnad yn uwch. Ar lefel y wlad, gwobrwywyd y dewis stoc positif o fewn marchnad Taiwan, De Affrica a Tsieina / HK (marchnad sy'n perfformio'n gryf). Roedd hyn yn cynnwys amlygiad dros bwysau i enwau technoleg Delta Electronics, Aspeed ac Accton Technology. Cyfrannodd y safle o fewn India (dan bwysau) a Brasil (dros bwysau) ymhellach at berfformiad cymharol. Fodd bynnag, fe wnaeth dewis stoc gwan ym Mrasil a De Korea gyfyngu ar berfformiad pellach. Roedd dewis stoc effeithiol o fewn technoleg gwybodaeth a nwyddau dewisol defnyddwyr yn gyfrannwr pellach, gyda chymorth gorbwysau i Samsung Electro-Mechanics a SK hynix. Ar lefel rheolwr, Axiom oedd y perfformiwr oedd yn sefyll allan, gan elwa o'i ogwydd momentwm a'i ddewis gwlad (Taiwan) a dewis stoc (technoleg gwybodaeth) effeithiol. Sands oedd y rheolwr a berfformiodd wannaf y chwarter hwn, gan fod eu harddull buddsoddi yn parhau i fod yn amhoblogaidd.

Sylwadau ar Farchnad y DU

Fe wnaeth ecwitiâu'r DU berfformio'n well na'r mynegai byd-eang a'r holl farchnadoedd eraill, gan elwa o ddigonedd o olew a nwy (BP, Shell), a stociau mwyngloddio (Glencore). Bu nifer o gwmnïau amddiffyn amlwg (BAE Systems) a diffyg cwmnïau technoleg mawr yn gymorth hefyd. Ynni oedd y sector a berfformiodd orau tra bod technoleg wedi tanberfformio. Torrodd y prif fynegai, y FTSE 100 drwy'r trothwy 10,000 ddechrau mis Ionawr, gan gyrraedd uchafbwynt ddiwedd mis Chwefror cyn gostwng yn sydyn yn dilyn ymosodiadau'r Unol Daleithiau ar Iran. Yn yr economi, gostyngodd chwyddiant pennawd i 3.0% FlarFI ym mis Ionawr (o 3.4%) ac ni fu newid iddo ym mis Chwefror. Mewn mannau eraill, er bod PMIs Ionawr a Chwefror wedi cryfhau gan ddangos y gallai eglurder yn dilyn y Gyllideb ym mis Tachwedd fod wedi rhoi hwb i weithgarwch busnes, dangosodd data rhagarweiniol ar gyfer mis Mawrth fod twf yn arafu mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Yn y cyfamser, dangosodd y farchnad swyddi arwyddion o wendid gyda diweithdra yn codi'n annisgwyl i 5.2% yn y tri mis hyd at fis Rhagfyr, yr uchaf ers dechrau 2021. Ni ddangosodd ffigwr Ionawr unrhyw welliant.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-0.3	17.9	11.7	8.2	7.3
Net	-0.4	17.6	11.4	7.8	6.9
FTSE All Share	2.4	21.5	13.3	11.1	8.4
Enillion dros ben (gros)	-2.7	-3.6	-1.6	-2.9	-1.1
Enillion dros ben (Net)	-2.8	-3.9	-1.9	-3.3	-1.5

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai FTSE All-Share

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

*Ffigyrau enillion cychwynnol wrth i Russel Investments gysoni anghysondebau gyda NT

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Fe wnaeth y Gronfa danberfformio'r meincnod enillion yn chwarter cyntaf 2026.

Fe wnaeth gogwydd y Gronfa tuag at stociau cyfalafu bach ac ansawdd dynnu oddi ar enillion cymharol mewn cyfnod lle arweiniodd enwau gwerth cyfalafu mawr y farchnad yn uwch. Fe wnaeth safle sector a dewis stoc effeithio ar yr enillion cymharol. Roedd hyn yn cynnwys y safle a'r detholiad o fewn nwyddau dewisol defnyddwyr (dros bwysau), ynni (tanbwysau), technoleg gwybodaeth (dros bwysau) a deunyddiau (tanbwysau). Ar lefel stoc, roedd tanbwysau i Shell, Glencore, BAE Systems ac AstraZeneca wedi cael effaith allweddol. Fodd bynnag, fe wnaeth tanbwysau a dewis stoc effeithiol o fewn y sector ariannol gyfyngu unrhyw danberfformiad pellach. Roedd hyn wedi'i ategu gan orbwysau i Beazley a thanbwysau i 3i Group ar lefel stoc. Ar wahân i Liontrust a Fidelity, mae'r rhan fwyaf o reolwyr gwaelodol wedi tanberfformio y chwarter hwn. Baillie Gifford oedd y perfformiwr gwanaf.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Yn yr Unol Daleithiau, oherwydd gwerthu gwelwyd symudiad at asedau hafan ddiogel, a fu o fudd i Drysorlys yr UD. Cyfrannodd data chwyddiant 'meddalach na'r disgwyl' at enillion is gyda chwyddiant CPI pennawd yn lleddfu i 2.4% FlarFI ym mis Ionawr o 2.7%. Ni fu unrhyw newid yn ffigwr Chwefror. Dwysaodd pryderon geo-wleidyddol ar ôl i'r Unol Daleithiau weithredu i dynnu arlywydd Venezuela o rym a'r drwgdeimlad cynyddol rhwng yr UD ac Ewrop ynghylch Greenland. Yn y cyfamser, daeth ansicrwydd tariff i'r amlwg eto ar ôl i'r Arlywydd Trump gyhoeddi tariffau 15%, gan eu haddasu'n ddiweddarach i ardoll fyd-eang o 10%. Roedd hyn yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys bod y mwyafrif o dariffau'r Arlywydd Trump yn anghyfreithlon. Ym mis Mawrth cododd enillion mewn ymateb i'r gwrthdaro cynyddol yn y Dwyrain Canol wrth i brisiau ynni gynyddu'n aruthrol, gan danio pryderon am chwyddiant ac pheri newid cyflym i ddisgwyliadau cyfraddau llog. Dros y chwarter cynyddodd yr enillion ar Drysorlysoedd 10-mlynedd meincnod 15 pwynt sylfaen (bps) i 4.32%. Yn yr economi, adlewyrchwyd gwendid y farchnad lafur mewn cyflogresi 'non-farm' gyda'r rhan fwyaf o swyddi newydd wedi'u creu mewn gofal iechyd. Yn ogystal, cododd diweithdra ym mis Chwefror i 4.4% o 4.3%. Fel arall, dangosodd darlenniad addasedig fod yr economi wedi tyfu 0.7% yn flynyddol yn chwarter olaf 2025, y gwannaf ers chwarter cyntaf y llynedd. Roedd gwariant is y llywodraeth yn ystod y cyfnod cau 43 diwrnod a gwariant is gan ddefnyddwyr wedi cyfrannu at y canlyniad.

Fe wnaeth 'spreads' credyd ehangu dros y chwarter, yn fwy felly mewn rhannau mwy peryglus o'r farchnad. Yn yr amgylchedd hwn, fe wnaeth buddsoddiad berfformio'n well na chynnyrch uchel, gyda'r DU yn perfformio orau. Yma, ehangodd 'spreads' 9 bps i 77, ychydig yn llai na lledaeniadau gradd buddsoddi yr Unol Daleithiau a ehangodd 10 bps i 83. Gwelwyd patrwm tebyg gyda 'spreads' gradd buddsoddi yn fyd-eang ac yn Ewrop (+12 bps i 84, +14 bps i 80, yn y drefn honno). Roedd Ewrop hefyd yn llusgo yn y farchnad cynnyrch uchel lle bu i'r 'spreads' ehangu 67 bps i 332. Roedd symudiad 'spreads' cynnyrch uchel yr UD (+51 bps i 317) yn unol â chynnyrch uchel byd-eang (+52 bps i 343). Gostyngodd EMD arian caled, fel y'i mesurir gan Fynegai Byd-eang JPM EMBI, 1.1% tra bod EMD arian cyfred lleol fel y'i mesurir gan Fynegai GBI-EM Global Diversified JP Morgan wedi gostwng 2.2%, yn sgil doler yr UD yn cryfhau.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.70%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-0.8	2.8	2.6	-0.2	-0.4
Net	-0.8	2.5	2.4	-0.4	-0.7
Mynegai FTSE World Govt Bond (GBP Hedged)	-0.2	2.6	2.7	-0.6	-1.1
Enillion dros ben (gros)	-0.6	0.2	-0.1	0.4	0.7
Enillion dros ben (Net)	-0.6	-0.1	-0.3	0.2	0.4

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai FTSE World Government Bond (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofnododd y Gronfa enillion negyddol.

Yn amgylchedd y farchnad yn y chwarter cyntaf ni chafwyd unrhyw fantais o orbwysau'r Gronfa i giltiau byrdymor y DU a'r gorbwysau i gyfraddau yng Ngholombia. Roedd amlygiad bach i gyfraddau yng Ngwlad Pwyl, Brasil ac Indonesia hefyd wedi gostwng y perfformiad. Roedd gorbwysau i gyfraddau ym Mecsico a thanbwysau i fondiau craidd ardal yr ewro wedi cyfyngu ar unrhyw danberfformiad pellach.

Cronfa Credyd Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.75%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-0.5	4.5	4.7	0.2	0.1
Net	-0.5	4.3	4.6	0.0	-0.1
Bloomberg Barclays Global Agg Mynegai Credyd (GBP Hedged)	-0.5	4.5	4.7	0.4	0.1
Enillion dros ben (gros)	0.0	0.0	0.0	-0.2	0.0
Enillion dros ben (Net)	0.0	-0.2	-0.1	-0.4	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai Credyd Bloomberg Barclays Global Aggregate (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Roedd y Gronfa yn unol â'r meincnod enillion dros y chwarter cyntaf.

Fe wnaeth 'spreads' credyd ehangu, yn fwy felly mewn rhannau mwy peryglus o'r farchnad. Yn yr amgylchedd hwn, fe wnaeth buddsoddiad berfformio'n well na chynnyrch uchel, gyda'r DU yn perfformio orau. Er i'r Gronfa elwa o ddyraniadau mewn credyd corfforaethol, cafodd hyn ei wrthbwyso gan effeithiau negyddol mewn mannau eraill. Y prif gyfrannwr positif oedd y safle mewn dyled arian caled marchnadoedd datblygol, yn enwedig yr amlygiad tanbwysau i radd buddsoddi yn y Dwyrain Canol. Roedd tanbwysau i gredyd gradd buddsoddi yn America Ladin hefyd yn rhywbeth positif. Yng nghredyd yr Unol Daleithiau, bu effaith gadarnhaol o amlygiad tanbwysau i gredyd gradd buddsoddi ariannol a chyfleustodau, ond roedd tanbwysau i gynnyrch uchel ariannol a chyfleustodau yn tynnu oddi ar hyn. Mewn credyd Ewropeaidd, roedd dyraniadau i gredyd gradd buddsoddi yn y maes ddiwydiannau yn gymorth, tra bod gorbwysau i gredyd gradd buddsoddi ariannol yn aneffeithiol. Mewn mannau eraill, roedd safle dyled sofran Sbaen yn fuddiol.

Cronfa Credyd Aml-ased:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 4%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-0.5	7.6	8.6	3.4	4.2
Net	-0.6	7.3	8.2	3.0	3.9
3 Month GBP SONIA + 4%	1.9	8.3	9.0	7.5	7.1
Enillion dros ben (gros)	-2.4	-0.7	-0.4	-4.1	-2.9
Enillion dros ben (Net)	-2.5	-1.0	-0.8	-4.5	-3.2
Meincnod dyrannu asedau strategol	1.9	8.4	9.0	7.5	7.1

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

*Nid yw amlygiad arian cyfred lleol EMD yn cael ei rag-fantoli yn y cyfanswm SAA hwn.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofnododd y Gronfa enillion negyddol yn y chwarter cyntaf.

Fel yn y chwarter blaenorol, fe elwodd cyfraddau a lleoliad credyd tra bod effeithiau arian cyfred wedi gwaethygu'r perfformiad. Mewn cyfraddau, roedd amlygiad i Drysorlysoedd yr UD yn effeithiol, yn enwedig gorbwysau i faterion blwyddyn. Roedd dyraniadau i gilts y DU hefyd yn ddefnyddiol tra bod amlygiad i gyfraddau Japan wedi pwyso ar enillion. Mewn credyd, roedd amlygiad i nodiadau banc un-flwyddyn yn gyfrannwr positif o bwys. Mewn credyd corfforaethol, roedd gorbwysau i gynnyrch uchel ariannol Ewropeaidd yn ddefnyddiol tra bod gorbwysau i gynnyrch uchel ariannol a diwydiannau yr Unol Daleithiau yn niweidiol. Roedd y safle mewn dyled arian caled marchnadoedd datblygol yn aneffeithiol, gyda gorbwysau i radd buddsoddi a chynnyrch uchel yn Ewrop a'r Dwyrain Canol wedi effeithio ar berfformiad. Fodd bynnag, roedd gorbwysau i Affrica ac Asia yn gymedrol positif. Mewn arian cyfred, roedd dyraniadau i ddoler yr UD a sterling y DU yn niweidiol tra bod y safle yn yr ewro yn effeithiol.

Ychwanegwyd Aegon fel rheolwr yn y Gronfa a bydd y broses yn cael ei chwblhau yn hanner cyntaf 2026. Nod ei strategaeth ABS Opportunity yw elwa o ddyrannu'n actif i'r cyfleoedd gwerth gorau ar draws y farchnad 'securitized' Ewropeaidd, buddsoddi mewn rhwymedigaethau benthygiad 'collateralized' ac ystod eang o sectorau diogelwch a gefnogir gan asedau. Yn ein barn ni, mae natur cynnyrch uchel y strategaeth hon yn cynnig enillion disgwyledig uwch trwy gylch y farchnad o'i gymharu ag amlygiad 'securitized' blaenorol y Gronfa. Ar y cyd â'r penderfyniad hwn, lleihawyd dyraniadau i Voya gyda'r nod o dynnu'r rheolwr o'r portffolio. Er bod Voya wedi perfformio'n well na'i feincnod ers ei sefydlu, mae'r strategaeth wedi'i chyfyngu gan reoliadau credyd 'securitized' y DU, sydd wedi amharu ar allu'r rheolwr i fuddsoddi yn y set gyfle lawn a gynigir ym maes 'securitized' yr UD. O ganlyniad, mae strategaeth Voya wedi dal mwy o fias amddiffynnol sydd wedi bod yn niweidiol i berfformiad yn ystod marchnadoedd diweddar.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA plus 2%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	0.9	4.5	6.4	4.4	4.4
Net	0.8	4.2	6.2	4.2	4.2
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.4	6.2	6.9	5.4	5.1
Enillion dros ben (gros)	-0.5	-1.7	-0.5	-1.0	-0.7
Enillion dros ben (Net)	-0.6	-2.0	-0.7	-1.2	-0.9

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Cofnododd y Gronfa enillion positif.

O fewn amgylchedd y farchnad, roedd amlygiad y Gronfa i fondiau trosadwy yn gyfrannwr allweddol. Arhosodd bondiau trosadwy ymhlith y prif ddosbarthiadau asedau byd-eang ar gyfer y chwarter, gan gyfrannu at gryfder y cyfnod cynnar a pherfformio'n well nag enillion credyd byd-eang a marchnad ecwiti yr Unol Daleithiau. Mewn mannau eraill, roedd safle macro byd-eang positif yn cynnwys safle cyfraddau llog effeithiol, mewn cyfnod lle cynyddodd cynnyrch. Roedd yr amlygiad i warantau Ewropeaidd wedi'u cefnogi gan asedau yn parhau i fod yn bositif, gyda defnyddwyr Ewropeaidd yn gymharol ddiogel rhag effeithiau uniongyrchol y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Fodd bynnag, fe wnaeth safle cyfraddau G10 nominal effeithio ar enillion ar gyfer ein DNCA cyffredinol aml-sector.

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.65%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa net o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch1 2026	1 Flwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	-1.6	4.3	4.9	0.3	0.0
Net	-1.7	4.2	4.8	0.2	-0.1
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	-1.6	4.3	4.3	-0.7	-0.8
Enillion dros ben (gros)	0.0	0.0	0.6	1.0	0.8
Enillion dros ben (Net)	-0.1	-0.1	0.5	0.9	0.7

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mawrth 2026

Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa

Perfformiodd y portffolio yn unol â'r mynegai ar y cyfan. Cyfrannodd safle credyd ac incwm *coupon* yn gadarnhaol, tra bod hyd amser (*duration positioning*) wedi effeithio ar y perfformiad yn fwy na dim arall. O fewn credyd, fe wnaeth safleoedd dethol o fewn cyfleustodau ychwanegu at enillion, tra bod amlygiad i fanciau, broceriaid ac yswiriant wedi effeithio ar berfformiad. Ar lefel y cyhoeddwr, roedd daliadau yn Logicor, Tesco a New York Life Insurance wedi bod o gymorth. I'r gwrthwyneb, mae tanbwysau strwythurol mewn cyhoeddwr lled-sofran ac uwch-genedlaethol dethol wedi effeithio ar berfformiad, tra bod y safle dros bwysau yn Oracle hefyd wedi effeithio mymryn ar enillion.

O safbwynt hyd amser (*duration*), mae gorbwysau i sterling a hyd yen Japan wedi gwaethygu'r perfformiad wrth i gynnyrch symud yn uwch ar draws cromliniau, ond mae safle byr yn hyd doler yr UD wedi gwrthbwysu hyn. Roedd y safle trwy'r model quant hefyd yn anffafriol ac yn pwysu ar berfformiad.